

SCRIPT CYNULLIAD AR GYFER PA MOR LÂN YDY'R AER RYDYN NI'N EI ANADLU?



Nod:

Gallu disgrifio'r prif fathau o lygredd aer, y cyflyrau maen nhw'n eu hachosi a pham ei bod yn bwysig monitro ansawdd aer - yn enwedig mewn ysgolion ac o amgylch ysgolion.

Mynd i mewn i'r gwasanaeth:

Gallech chi ddewis chwarae 'Mercy Mercy Me', cân am lygredd gan Marvin Gaye, wrth i'r myfyrwyr fynd i mewn i'r ystafell.

Cyfarwyddiadau a nodiadau athrawon	Sleid cyflwyniad
Sleid teitl. Dechreuwch drwy ofyn y cwestiwn, 'Pa mor lân yw'r aer rydyn ni'n ei anadlu?' i'r myfyrwyr gan ddilyn gyda, 'Sut allwn ni ddarganfod hyn?', 'Sut ydyn ni'n ei fesur?' a, 'Pam ddylen ni boeni?'	A blue slide with the title 'PA MOR LÂN YDY'R AER RYDYN NI'N EI ANADLU?' in pink and white text. A large blue circle with the number '1' is overlaid on the right. The Asthma+ Lung UK logo is in the top right corner.
Dangoswch y gwahanol arwyddion rhybuddio a gofyn i'r myfyrwyr ystyried pwrpas arwyddion fel hyn? Byddant heb amheuaeth wedi gweld arwyddion fel hyn, a llawer o rai eraill sy'n rhybuddio am beryglon eraill, ond beth yw eu pwrpas?	A blue slide with the title 'Beth yw pwrpas arwyddion fel y rhain?' in white text. A large blue circle with the number '2' is overlaid on the right. Below the title are three warning signs: a yellow triangle with a black lightning bolt, a yellow triangle with a black exclamation mark, and a red circle with a white diagonal line over a black bicycle. The Asthma+ Lung UK logo is in the top right corner.

Cyfarwyddiadau a nodiadau athrawon

Sleid cyflwyniad

Esboniwch ein bod ni i gyd yn wynebu nifer o beryglon bob dydd yn ystod ein bywydau. Mae'n amhosibl cael gwared ar bob perygl o'n bywydau. Ond mae'r arwyddion hyn yn ein gwneud yn ymwybodol o berygl, maen nhw'n dod ag ef i flaen ein meddyliau, maen nhw'n dylanwadu arnom i gymryd rhagofalon ac addasu ein hymddygiad fel bod y risg rydyn ni'n ei wynebu o'r perygl penodol hwnnw yn cael ei leihau. Esboniwch fod rhai peryglon yn anweledig ac nid oes ganddynt arwyddion rhybuddio er eu bod yn beryglus iawn.




Eglurwch mai llygredd aer yw'r bygythiad amgylcheddol mwyaf i iechyd a'i fod yn arwain at farwolaeth gynnar tua 43,000 o bobl yn y DU bob blwyddyn a 4.2 miliwn yn fyd-eang. Mae 99% o bobl yn anadlu aer annïogel.




Disgrifiwch sut mae gweithgarwch dynol yn creu gronynnau a'i fod yn cael ei ffurfio gan ronynnau microsgopig sy'n arnofio yn yr aer ac y gellir eu hanadlu. Yn dibynnu ar eu maint, gallant hefyd fynd i mewn i'r llif gwaed trwy amsugno gan y croen a'r system resbiradol.



Esboniwch sut mae osôn ar lefel y ddaear yn cael ei greu trwy'r adwaith ffotocemegol rhwng llygryddion a golau'r haul.



Esboniwch sut mae nitrogen ocsid yn un o'r nwyon sy'n helpu i greu osôn (neu smog) ar lefel y ddaear a bod dros 80% o lygredd nitrogen ocsid yn y DU yn cael ei achosi gan drafndiaeth - yn enwedig ceir a faniau diesel.



Dangoswch y cwmwl geiriau a thrafodwch / enwi rhai o'r prif gyflyrau sy'n cael eu hachosi gan amlygiad hirdymor i lygredd aer.




Dangoswch y cwmwl geiriau a thrafodwch / enwi rhai o'r prif symptomau y gallai pobl eu profi oherwydd amlygiad tymor byr i lygredd aer.




Nawr bod y myfyrwyr yn ymwybodol o rai o'r cyflyrau ofnadwy a achosir gan lygredd aer a beth yw'r prif lygryddion aer, gofynnwch iddynt ystyried beth y gellir ei wneud amdano. Esboniwch mai anadlu yw sut mae ein cyrff yn cael ocsigen hanfodol, sy'n cynnal bywyd. Dangoswch y cwestiwn amlddewis am y nifer cyfartalog o anadliadau a gymerir mewn diwrnod ysgol a gofynnwch i fyfyrwyr godi eu dwylo am ateb maen nhw'n meddwl sy'n gywir. Yna datgelwch ei fod tua 6,000.



Esboniwch pam mae ansawdd aer mewn ysgolion yn arbennig o bwysig a pham mae plant yn fwy agored i lygredd aer na grwpiau eraill mewn cymdeithas.



Esboniwch mai dyna pam mae'r ysgol wedi penderfynu gosod monitorau ansawdd aer mewn gwahanol leoliadau o amgylch safle'r ysgol. Trwy gael mwy o wybodaeth am faint o lygredd aer sydd yn yr ysgol, bydd cymuned yr ysgol mewn sefyllfa well i gymryd camau i leihau'r peryglon a'r risgiau mae'n eu hwynebu. Dim ond trwy ddeall maint y broblem y gellir mynd i'r afael â hi.



Dangoswch y ddelwedd o'r monitor aer ac esboniwch, os ydyn nhw'n gweld y rhain o amgylch yr ysgol, eu bod nhw yno i fesur ansawdd ein haer.



Atgyfnerthwch pam mae aer glân yn bwysig trwy egluro y bydd 20% o bobl yn datblygu cyflwr ar yr ysgyfaint yn ystod eu bywyd a bod dros 5 miliwn o bobl yn y DU yn byw gydag asthma. Gorffennwch trwy esbonio, os ydym ni'n gweithredu heddiw, y gellir lleihau'r ffigurau hyn yn y dyfodol.



Dangoswch logo Asthma + Lung UK ac esboniwch fod yr elusen hon, trwy gamau gweithredu fel rhoi monitorau ansawdd aer i ysgolion, yn gweithio i wella ansawdd aer ac felly iechyd yr ysgyfaint yn y DU. Targed Asthma + Lung UK yw lleihau nifer y marwolaethau a achosir gan gyflyrau'r ysgyfaint o 20% erbyn y flwyddyn 2027. Esboniwch sut y gall y myfyrwyr ddarganfod mwy drwy ymweld â www.asthmaandlung.org.uk neu chwilio #fightingforbreathe ar gyfryngau cymdeithasol.



Efallai yr hoffech chi chwarae'r gerddoriaeth o ddechrau'r gwasanaeth wrth i fyfyrwyr adael y neuadd.

